

Datganiad Polisi Cyhoeddus – Crynodeb Gweithredol

Incwm a Chyllid

Gorffennaf 2025

Cynnwys

Cefndir.....	2
Crynodeb Gweithredol.....	5
Rhestr o gynigion polisi cyhoeddus.....	8

Cefndir

Mae Age Cymru yn credu y dylai pobl hŷn fwynhau incwm rheolaidd sy'n eu galluogi i fyw'n gyfforddus a chymryd rhan mewn cymdeithas. Credwn y dylai fod gan bobl hŷn ymreolaeth a diogelwch ariannol, ac na ddylai eu safonau byw fyth ddirywio'n ddramatig wrth iddyn nhw heneiddio.

I'r rhan fwyaf o bobl hŷn yng Nghymru, mae 'incwm' yn cwmpasu ystod o wahanol ffynonellau ariannol, gwaeth a yw rhywun yn bensiynwr ai peidio. Mae'r ffynonellau hyn yn cynnwys Pensiwn y Wladwriaeth, pensiynau yn y gweithle, budd-daliadau a hawliau lles, a chyflogau o gyflogaeth â thâl.

Pan ryddhawyd datganiad polisi diwethaf Age Cymru yn 2018, roedd cyllid pobl hŷn yng Nghymru yn cael ei drawsnewid. Rhwng canol y 1990au a dechrau'r 2010au gwelodd sefyllfa ariannol pobl hŷn yn gyflym, wrth i bensiynau preifat a budd-daliadau'r wladwriaeth gynyddu gan olygu bod tlodi ymhlith pensiynwyr wedi gostwng o tua 30% yn yr 1990au cynnar i ddim ond 13% yn 2012-13.¹ Fodd bynnag, cynyddodd tlodi ymhlith pensiynwyr eto yn ystod y 2010au, yn ystod yr argyfwng economaidd byd-eang yn 2008, a chafodd y bobl a oedd yn dibynnu ar Bensiwn y Wladwriaeth a budd-daliadau (yn hytrach na phensiynau preifat) eu heffeithio'n wael.² Ar yr un pryd, parhaodd poblogaeth Cymru i heneiddio, gan gynyddu nifer y bobl sy'n hawlio Pensiwn y Wladwriaeth a budd-daliadau sy'n gysylltiedig â phensiwn.³ Mae tystiolaeth hefyd yn awgrymu bod rhaglen llymder y 2010au wedi cael effaith niweidiol ar iechyd pobl hŷn, gan olygu bod incwm cyflog wedi gostwng a bod yna fwy o ddibyniaeth ar fudd-daliadau.⁴ Erbyn 2018, roedd poblogaeth Cymru yn heneiddio, roedd eu hiechyd yn dirywio, roedd y gymdeithas yn fwy anghyfartal ac yn fwy dibynnol ar gefnogaeth gan y llywodraeth.

Ers y cyfnod hwn, mae'r tueddiadau hyn wedi cyflymu, yn bennaf oherwydd pandemig Covid-19 a dechrau Rhyfel yr Wcráin yn 2022. Ar ddechrau'r pandemig bu gostyngiad byr mewn tlodi ymhlith pensiynwyr, wrth i gefnogaeth frys y llywodraeth ddarparu cefnogaeth dros dro.⁵ Ar ôl i'r gefnogaeth ddod i ben, fodd bynnag, cynyddodd tlodi ymhlith pensiynwyr unwaith eto. Yn rhannol, roedd hyn yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd: achosodd pwysau'r pandemig ar wasanaethau'r GIG ddirywiad cyffredinol ar iechyd y boblogaeth wrth i apwyntiadau gael eu canslo neu eu gohirio,

¹ Joseph Rowntree Foundation, *UK Poverty 2024* (January 2024), <https://www.jrf.org.uk/uk-poverty-2024-the-essential-guide-to-understanding-poverty-in-the-uk>.

² Jonathan Cribb, Anna Henry, Heidi Karjalainen, *How have pensioner incomes and poverty changed in recent years?*, Institute for Fiscal Studies, July 2024, <https://ifs.org.uk/publications/how-have-pensioner-incomes-and-poverty-changed-recent-years>.

³ Welsh Government, *Age friendly Wales: our strategy for an ageing society* (October 2021), <https://www.gov.wales/age-friendly-wales-our-strategy-ageing-society.html>.

⁴ Carys Pugh, Chima Eke, Sohan Seth, Bruce Guthrie, Alan Marshall, 'Frailty before and during austerity: A time series analysis of the English Longitudinal Study of Ageing 2002-2018', *PLOS One* (February 2024), <https://journals.plos.org/plosone/article?id=10.1371/journal.pone.0296014#sec017>.

⁵ Joseph Rowntree Foundation, *UK Poverty 2024*.

gan greu ansicrwydd wrth i'w hincwm ostwng a/neu eu bod yn cael eu gwthio tuag at ofal iechyd preifat.⁶ Cafodd ôl-gryniadau ariannol y pandemig eu gwaethgu wedyn gan y cyfnod o chwyddiant cyflym (a elwir yn 'argyfwng costau byw') a ddechreuodd yn 2022, sy'n gysylltiedig ag aflonyddwch masnach fyd-eang a sbardunwyd gan Ryfel yr Wcráin. Cyrhaeddodd yr argyfwng hwn bwynt uchaf ym mis Hydref 2022, pan oedd chwyddiant yn 9.6%.⁷ Er y byddai chwyddiant yn dychwelyd i lefelau mwy rheoladwy erbyn 2024, mae poblogaeth hŷn Cymru yn dal i deimlo effeithiau'r argyfwng costau byw: ym mis Mai 2025, roedd 1 o bob 6 o bobl hŷn yng Nghymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol.⁸

Mae'r cyfnod hwn hefyd wedi gweld newidiadau yn y ffordd y mae pobl hŷn yn rheoli eu cyllid. Y prif ymhlith y rhain yw'r newid o wasanaethau ariannol wyneb yn wyneb i wasanaethau ariannol digidol, sydd wedi gweld 395 (allan o 560) o ganghennau banc yng Nghymru yn cau ers 2015.⁹ Er bod rhai pobl hŷn yn hapus i ddefnyddio gwasanaethau ariannol digidol, mae rhai'n teimlo bod gwasanaethau digidol yn lleihau eu gallu i reoli eu cyllid personol, a'u hymreolaeth ariannol. Mae hyn yn arbennig o wir ymhlith y 170,000 o oedolion yng Nghymru sydd wedi'u heithrio'n ddigidol (y rhan fwyaf ohonynt yn bobl hŷn) ond mae hefyd yn berthnasol i bobl sy'n teimlo'n fwy diogel wrth fancio wyneb yn wyneb, yn enwedig ar adeg pan fo twyll ar-lein yn fwyfwy cyffredin.¹⁰ Mae trafodion ariannol hefyd wedi dod yn fwyfwy digidol, gyda thaliadau cerdyn neu ffôn yn raddol yn cymryd lle arian parod. Unwaith eto, er bod llawer o bobl hŷn wedi addasu i'r newid hwn, mae eraill yn teimlo bod digideiddio trafodion yn ei gwneud hi'n anoddach rheoli arian, gan eu gwneud yn fwy agored i droseddau ariannol.

Daw'r datganiad polisi hwn felly ar adeg pan mae pobl hŷn yng Nghymru yn wynebu ansefydlogrwydd ariannol sylweddol. Mae chwyddiant uwch, llai o wasanaethau cyhoeddus, rheolau cymhwysedd budd-daliadau mwy llym, poblogaeth sy'n heneiddio a digideiddio gwasanaethau ariannol a masnach – i gyd yn parhau i chwarae eu rhan wrth waethgu ansicrwydd ariannol pobl dros 50 oed yng Nghymru. Mae'r elusen Independent Age yn rhagweld y bydd 1 o bob 4 o bobl hŷn yn y DU yn byw mewn tlodi erbyn 2040 (ffigwr sy'n debygol o fod yn uwch yng Nghymru) mae

⁶ Age Cymru, *What matters to you? – Current experiences of people aged 50 or over in Wales – August 2024* (August 2024), <https://www.agecymru.wales/our-work/policy/annual-survey/>.

⁷ Office for National Statistics, 'CPIH ANNUAL RATE 00: ALL ITEMS 2015=100', 21 May 2025, <https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/timeseries/l55o/mm23>.

⁸ Work and Pensions Committee, 'Wales' pensioner poverty approach examined by MPs in Cardiff', 12 May 2025, <https://committees.parliament.uk/event/24198>.

⁹ Josh Wilson, 'Bank branch closures: is your local bank closing?', *Which?*, 23 May 2025, <https://www.which.co.uk/money/banking/switching-your-bank/bank-branch-closures-is-your-local-bank-closing-ayYyu4i9RdHy>.

¹⁰ Digital Communities Wales, 'Digital Inclusion in Wales', <https://www.digitalcommunities.gov.wales/digital-inclusion-in-wales-2/>; National Economic Crime Centre, *National Economic Crime Centre Annual Report 2023-2024* (2024), <https://www.nationalcrimeagency.gov.uk/who-we-are/publications/730-national-economic-crime-centre-annual-report-2023-2024/file>.

bellach yn hanfodol bod llunwyr polisi yn archwilio ffyrdd newydd o sicrhau bod pobl hŷn yn gallu fforddio byw bywydau hir ac iach yn y dyfodol.¹¹

Mae'r datganiad polisi Incwm a Chyllid yn cwmpasu 5 maes polisi sy'n ymwneud â gwahanol agweddau ar incwm a chyllid pobl hŷn. Y rhain yw: Pensiwn y Wladwriaeth, pensiynau preifat a gweithle, budd-daliadau lles, byw ar incwm isel, a gwasanaethau ariannol. Nod y datganiad hwn yw archwilio'r newidiadau allweddol sydd wedi effeithio ar incwm a chyllid pobl hŷn dros y saith mlynedd diwethaf, ac argymhell newidiadau polisi a fydd yn cynnal incwm diogel i bobl hŷn yng Nghymru, gan sicrhau eu bod yn gallu byw yn iach, yn ddiogel, gydag urddas am weddill eu hoes.

Nodwch: Mae'r crynodeb gweithredol hwn yn cyfeirio at faterion cysylltiedig fel cyflogaeth, tai a diogelu. Os hoffech chi ragor o fanylion am safbwyntiau polisi Age Cymru ar faterion fel hyn, mae'r datganiadau polisi cyhoeddus perthnasol ar [wefan](#) Age Cymru.

¹¹ Independent Age, 'Pensioner poverty could almost double in next 15 years: new research predicting a surge in financial hardship in later life', 11 June 2024, <https://www.independentage.org/news-media/press-releases/pensioner-poverty-could-almost-double-next-15-years-new-research>.

Crynodeb Gweithredol

Mae Age Cymru yn credu na ddylai unrhyw un orfod profi ansicrwydd ariannol wrth heneiddio. Mae'r datganiad polisi Incwm a Chyllid yn cynnig argymhellion polisi i sicrhau bod pobl hŷn yng Nghymru yn derbyn incwm sy'n eu galluogi i fwynhau ansawdd bywyd da, yn ddigon rheolaidd i osgoi colli eu diogelwch yn sydyn, ac yn ddigon hygyrch i ganiatáu iddynt ymreolaeth ariannol.

Mae'r crynodeb gweithredol hwn yn ymdrin â materion polisi sy'n ymwneud â phwerau datganoledig ac wrth gefn. Lle bo'n bosibl, rydym wedi cysylltu argymhellion unigol â'r awdurdod perthnasol, boed yn Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru neu awdurdodau lleol.

Dyma ein hargymhellion:

1. Pensiwn y Wladwriaeth

Mae Pensiwn y Wladwriaeth yn gwarantu lefel sylfaenol o ddiogelwch ariannol yn ddiweddarach mewn bywyd sy'n hanfodol i iechyd a lles personol. Felly, rhaid i Bensiwn y Wladwriaeth barhau i fod yn hawl na ellir ei drafod i bob person o oedran pensiwn. Mae Age Cymru yn cefnogi'r defnydd parhaus o fecanwaith y Clo Triphlyg i gynnal cydraddoldeb ariannol rhwng pensiynwyr a gweddill y gymdeithas ac mae'n credu y dylid ymestyn y Clo Triphlyg i elfennau ehangach o Bensiwn y Wladwriaeth, megis y Pensiwn Ychwanegol.

Rhaid cyfathrebu newidiadau i oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn glir ac mewn modd amserol (h.y. o leiaf deng mlynedd o rybudd). Dylid cynnig mwy o gymorth ariannol hefyd i bobl 60+ oed sy'n methu gweithio hyd at oedran Pensiwn y Wladwriaeth, oherwydd cyflyrau iechyd, anabledau, cyfrifoldebau gofal hirdymor neu ffactorau eraill.

2. Pensiynau yn y gweithle

Mae'r ddau ddegawd diwethaf wedi gweld cynnydd cynlluniau pensiwn Cyfraniadau Diffiniedig, sy'n cynnig mwy o hyblygrwydd ond hefyd mwy o risg i gynilwyr. Mae Age Cymru yn credu bod yn rhaid i ddarparwyr pensiwn yn y gweithle gynnig gwybodaeth gywir a hygyrch i weithwyr sydd â phensiynau Cyfraniadau Diffiniedig fel y gallant reoli eu harian yn well wrth baratoi ar gyfer heneiddio. Ar yr un pryd, dylai darparwyr pensiwn fod yn fwy rhagweithiol wrth reoli buddsoddiadau i warantu canlyniadau da i ddeiliaid pensiwn ar ôl iddynt ymddeol.

Dylai Llywodraeth y DU, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a'r diwydiant pensiynau ddatblygu 'llwybrau incwm ymddeol' newydd i helpu pobl i wneud y gorau o hyblygrwydd y system Cyfraniadau Diffiniedig trwy eu tywys drwy'r farchnad cynnyrch i osgoi dewisiadau buddsoddi gwael, sgamiau a thaliadau diangen. Fel

rhan o'r ymdrech hon, dylai Llywodraeth y DU dreialu system apwyntiad awtomatig ar gyfer Pension Wise i gyfeirio cynilwyr yn awtomatig tuag at ganllawiau pensiynau diduedd.

3. Budd-daliadau a hawliau lles

Er mwyn lliniaru'r ddibyniaeth gynyddol ar fudd-daliadau a hawliau lles, dylai'r DU a Llywodraeth Cymru gyfeirio mwy o wariant cyhoeddus at wasanaethau sy'n cael effaith gadarnhaol amlwg ar ansawdd bywyd. Mae'r rhain yn cynnwys gofal iechyd, gofal cymdeithasol, tai cymdeithasol a mannau gwyrdd, ymhlith eraill.

Mae Age Cymru hefyd yn cefnogi addasiadau lluosog i'r system fudd-daliadau bresennol. Yn gyntaf, dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau leihau cymhlethdod y system fudd-daliadau, gan ei gwneud hi'n haws, a chreu system sy'n achosi llai o straeon feddylol i bobl lywio'r broses ymgeisio am fudd-daliadau. Dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau hefyd weithio gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i annog manteisio ar Gredyd Pensiwn, e.e. drwy ymgyrch wedi'i thargedu. Dylai'r rhai sy'n gymwys i gael Credyd Pensiwn hefyd gael eu rhybuddio'n awtomatig am fudd-daliadau eraill y gallent fod yn gymwys amdanynt.

Mae Age Cymru yn argymhell na ddylid gwneud unrhyw newidiadau deddfwriaethol mawr i'r system fudd-daliadau yn sydyn a dylid rhoi digonedd o amser i ganiatáu i bobl addasu eu sefyllfaoedd ariannol. Mae hyn er mwyn osgoi achosi straen i bobl yn sydyn.

Yn olaf, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector diwylliannol ac elusennol i chwalu'r stigma cymdeithasol sy'n dal i fod yn gyffredin ynghylch hawlio budd-daliadau. Yn hytrach, dylid annog naratif o undod â'r rhai sydd angen hawlio budd-daliadau.

4. Byw ar incwm isel yn hwyrach mewn bywyd

Rhaid i bolisi Llywodraeth y DU osgoi (cyn belled ag y bo modd) creu amgylchiadau sy'n rhoi pwysau sydyn ar gostau byw, yn enwedig y costau sy'n ymwneud ag ynni, bwyd a gofal. O ran ynni, dylai Llywodraeth y DU weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu tariff cymdeithasol i bobl sy'n byw ar incwm is.

Dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi mwy o adnoddau mewn gwasanaethau cyngor ariannol achrededig ffurfiol, p'un a ddarperir gan gyrff cyhoeddus neu elusennau. Mae'r gwasanaethau hyn yn chwarae rhan hanfodol wrth helpu pobl hŷn i wneud y mwyaf o'u hincwm personol ac ynysu eu hunain rhag ansicrwydd ariannol.

Dylid cynnal ymchwil pellach i sefyllfa'r bobl hŷn hynny yng Nghymru sy'n byw mewn amgylchiadau 'ble maen nhw'n gyfoethog o ran asedau, ac yn dlawd o ran arian parod'.

5. Gwasanaethau ariannol

Mae cau banciau'r stryd fawr yn cyfyngu ar ymreolaeth ariannol a diogelwch pobl hŷn, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Felly, mae Age Cymru yn argymhell bod banciau yn ymgynghori â chymunedau cyn penderfynu ar gau canghennau er mwyn sicrhau nad yw gwasanaethau bancio wyneb yn wyneb yn dod yn anhygyrch i bobl hŷn. Ar yr un pryd, rydym yn cefnogi ehangu'r gwasanaethau bancio sydd ar gael mewn canghennau Swyddfa'r Post ac yn annog Swyddfa'r Post i weithio gyda banciau er mwyn adeiladu rhwydwaith o gynghorwyr ariannol hyfforddedig. Mae Age Cymru hefyd yn cefnogi ehangu canolfannau bancio i gwmpasu pob prif aneddiad ledled Cymru, gydag o leiaf un ganolfan ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol.

Mae Age Cymru hefyd yn cefnogi hawl pobl hŷn i gael mynediad at arian parod a'i ddefnyddio wrth dalu am drafodion bach, gan fod llawer o bobl yn ei chael hi'n haws ac yn fwy diogel rheoli arian parod na thaliadau electronig. Rydym yn argymhell bod busnesau yn parhau i dderbyn arian parod fel ffurf ddilys o dalu a sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi i drin trafodion arian parod. Rydym hefyd yn galw ar Lywodraeth y DU i ddeddfu i gynnal digon o ATMs am ddim ledled y wlad fel nad oes unrhyw un yn cael trafferth cael mynediad at arian parod am ddim.

Rhestr o gynigion polisi cyhoeddus

1. Pensiwn y Wladwriaeth

- Rhaid i fynediad i Bensiwn y Wladwriaeth barhau i fod yn hawl cadarn i bawb o oedran pensiwn yng Nghymru, gan sicrhau bod gan bawb sy'n heneiddio lefel sylfaenol o ddiogelwch ariannol.
- Rhaid cynnal y polisi Clo Triphlyg fel ffordd o gynnal cydraddoldeb ariannol rhwng pensiynwyr a gweddill y gymdeithas.
- Dylid ehangu'r Clo Triphlyg i fod yn berthnasol i elfennau eraill o Bensiwn y Wladwriaeth, fel y pensiwn ychwanegol.
- Rhaid i Lywodraeth y DU wella lefel y cyfathrebu cyhoeddus am unrhyw newidiadau i oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn y dyfodol a chynhyrchu rhagolygon Pensiwn y Wladwriaeth amserol a chlir. Dylai unrhyw newidiadau i oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn y dyfodol roi o leiaf deng mlynedd o rybudd.
- Dylid cynnig mwy o gymorth ariannol i bobl dros 60 oed sydd ddim yn gallu gweithio hyd at oedran pensiwn, boed hynny oherwydd anabledd, cyflyrau iechyd, cyfrifoldebau gofalu hirdymor, neu faterion eraill. Gallai'r cymorth ariannol hwn fod ar ffurf gostyngiad untro i oedran pensiwn, neu gyflwyno budd-dal newydd i bobl 60+ oed nad ydynt yn gallu gweithio.

2. Pensiynau yn y gweithle

- Rhaid i ddarparwyr pensiwn y gweithle gynnig gwybodaeth gywir a hygyrch i weithwyr sydd â phensiynau Cyfraniadau Diffiniedig er mwyn iddynt fedru cadw gwell trefn ar eu harian wrth iddyn nhw heneiddio.
- Dylai Llywodraeth y DU, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a'r diwydiant pensiynau ddatblygu 'llwybrau incwm ymddeol' newydd i helpu pobl i fanteisio i'r eithaf ar hyblygrwydd y system Cyfraniadau Diffiniedig trwy eu cefnogi wrth iddyn nhw lywio'r farchnad cynnyrch a'u helpu i osgoi gwneud buddsoddiadau gwael, dioddef sgamiau a gwneud taliadau diangen.
- Dylai Llywodraeth y DU dreialu system benodi awtomatig ar gyfer Pension Wise (gwasanaeth MoneyHelper a gefnogir gan y llywodraeth), i gyfeirio cynilwyr tuag at ganllawiau pensiynau diduedd.
- Dylai darparwyr pensiwn fod yn fwy rhagweithiol wrth reoli buddsoddiadau er mwyn sicrhau bod deiliaid pensiwn yn cael canlyniadau da ar ôl iddynt ymddeol.

3. Budd-daliadau a hawliau lles

- Dylai Llywodraeth Cymru a'r DU gyfeirio mwy o wariant cyhoeddus tuag at wasanaethau sy'n cael effaith uniongyrchol ar ansawdd bywyd (e.e. gofal

iechyd, gofal cymdeithasol, tai fforddiadwy, ac ati) er mwyn lleihau dibyniaeth ar fudd-daliadau.

- Dylid rhoi digon o amser i rybuddio pobl am newidiadau arfaethedig i fudd-daliadau a hawliau. Mae angen i Lywodraeth y DU osgoi gwneud newidiadau i'r un budd-dal dro ar ôl tro mewn cyfnod byr o amser (er enghraifft Taliad Tanwydd y Gaeaf yn ystod 2024-25), gan fod hyn yn creu ansicrwydd ariannol i bobl hŷn.
- Dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau leihau cymhlethdod cyffredinol y system fudd-daliadau, a gwneud y broses yn haws a chyflymach wrth i bobl ymgeisio am fudd-daliadau.
- Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ac awdurdodau lleol i gynhyrchu ymgyrch wedi'i thargedu er mwyn annog pobl i fanteisio ar Gredyd Pensiwn.
- Dylai pobl sy'n gymwys i gael Credyd Pensiwn gael gwybodaeth am fudd-daliadau eraill maen nhw'n medru gwneud ceisiadau amdanynt.
- Dylai Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus weithio gyda sectorau eraill (e.e. elusennau, sector diwylliannol) i gael gwared ar y stigma cymdeithasol ynghylch hawlio budd-daliadau, ac adeiladu naratif sy'n seiliedig ar gefnogi pobl sy'n byw mewn tlodi.

4. Byw ar incwm isel yn hwyrach mewn bywyd

- Rhaid i Lywodraeth y DU lunio ei pholisïau i osgoi pwysau chwyddiant sydyn ar gostau byw lle bo hynny'n bosib. Mae hyn yn arbennig o wir am gostau sy'n ymwneud ag ynni, bwyd a gofal.
- Dylai Llywodraeth y DU weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r sector cyfleustodau i ddatblygu tariff cymdeithasol ar ddefnydd ynni i bobl sy'n byw ar incwm isel.
- Rhaid i Lywodraeth Cymru fuddsoddi mwy o adnoddau mewn gwasanaethau cynghori ariannol, yn cynnwys gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan gyrff cyhoeddus neu'r trydydd sector, i helpu pobl hŷn i ddefnyddio'u hincwm personol yn effeithiol a diogelu'u hunain rhag ansicrwydd ariannol.
- Mae angen gwneud mwy o waith ymchwil am brofiadau pobl hŷn yng Nghymru sydd â mwy o asedau nag arian.

5. Gwasanaethau ariannol

- Dylai banciau ymgynghori â chymunedau cyn penderfynu ar gau canghennau i sicrhau nad yw gwasanaethau bancio wyneb yn wyneb yn dod yn anhygyrch i bobl leol, nac yn lleihau eu hymreolaeth ariannol.
- Dylai Swyddfeydd Post ehangu nifer y gwasanaethau bancio sydd ar gael yn eu canghennau a thrafod gyda banciau i ddatblygu rhwydwaith mwy eang o gynghorwyr ariannol hyfforddedig.

- Dylid ehangu canolfannau bancio i gwmpasu'r holl aneddiadau mawr ledled 22 awdurdod lleol Cymru.
- Dylai busnesau dderbyn arian parod fel dull dilys o wneud taliadau a sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol i wneud trafodion gydag arian parod.
- Dylai Llywodraeth y DU ddeddfu i sicrhau bod digon o beiriannau ATM am ddim ledled y wlad er mwyn sicrhau nad oes unrhyw un yn cael trafferth cael mynediad at arian parod.

Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig: 1128436. Mae'n gwmni cyfyngedig trwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Cyfeiriad ein swyddfa gofrestredig Llawr Isaf, Tŷ Mariners, Llys Trident, Heol East Moors, Caerdydd CF24 5TD. © Age Cymru 2025